



Ar 15 Medi 2016 cyhoeddodd y llywodraeth Siarter Frenhinol a Chytundeb Fframwaith drafft. Mae hon yn un o gyfres o daflenni gwybodaeth, sy'n esbonio rhai o'r polisiau allweddol sydd yn y drafftiau yn fanylach.

Cefndir

Ar hyn o bryd caiff y gwaith o lywodraethu - yn ogystal â rheoleiddio - y BBC ei gwblhau gan Ymddiriedolaeth y BBC. Cynhaliwyd adolygiad annibynnol i systemau llywodraethu a rheoleiddio'r BBC gan Syr David Clementi ym mis Mawrth 2016 a derbyniwyd yr argymhellion gan y llywodraeth. Bydd y Siarter newydd y sefydlu bwrdd unedol cryf i'r BBC, a fydd yn llwyr gyfrifol am lywodraethu'r BBC a darparu ei wasanaethau. Bydd y Siarter hefyd yn penodi Ofcom fel rheoleiddiwr allanol annibynnol y BBC. Bydd cyfnod byr o newid cyn i Fwrdd y BBC ac Ofcom ymgymryd â'u rolau llywodraethu a rheoleiddio newydd ar 3 Ebrill 2017.

Polisi'r llywodraeth

- Bydd cyfnod byr o newid cyn i Fwrdd y BBC ac Ofcom ymgymryd â'u rolau llywodraethu a rheoleiddio newydd ar 3 Ebrill 2017.
- Bydd y diwygiadau sylfaenol a nodir yn y Siarter ddrafft hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff dan sylw, o gofio cymhlethdod y newidiadau, weithredu cyfnod pontio llyfn, a phwysigrwydd ymgynghori ar rai o elfennau o'r strwythurau rheoleiddio newydd, fel y fframwaith gweithredu a'r gyfundrefn drwyddedu newydd.
- Bydd y BBC yn parhau i weithredu o dan y trefniadau presennol yn ystod y cyfnod hwn o newid. Golyga hyn y bydd Bwrdd Gweithredol y BBC ac Ymddiriedolaeth y BBC yn parhau i lywodraethu a rheoleiddio'r BBC fel y maent yn ei wneud ar hyn o bryd.

Darpariaethau yn y Siarter a'r Cytundeb Fframwaith

- Nodir trefniadau'r newid yn yr Atodlen i'r Siarter.
- Caiff rhagor o fanylion eu cadarnhau yn y misoedd i ddod wrth i ni gydweithio'n agos â'r BBC ac Ofcom i sicrhau y caiff pob elfen o'r newid ei reoli mor ddidrafferth â phosibl, gan gynnwys proses sefydlu Bwrdd newydd y BBC.

Am ragor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/government/collections/bbc-charter-review. Os hoffech drafod cynnwys y daflen wybodaeth hon, cysylltwch â enquiries@culture.gov.uk
Ar gyfer ymholiadau gan y cyfryngau, cysylltwch â thîm Newyddion a Chysylltiadau DCMS ar 020 7211 2210